

Briff Ymchwil Coetiroedd yng Nghymru: Hysbysiad Hwylus

Awdur: **Eleanor Warren-Thomas ac Elfyn Henderson**
Dyddiad: **Mai 2017**



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Eleanor Warren-Thomas ac Elfyn Henderson**

Dyddiad: **Mai 2017**

Rhif Papur: **17-008**

Llun: o flickr gan Gareth Patterson. Dan drwydded Creative Commons.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn cydnabod y gymrodoriaeth seneddol a roddwyd i Eleanor Warren-Thomas gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, a alluogodd i'r papur hwn gael ei gwblhau.

Cysylltwch â ni

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

 : 0300 200 6317

 : Elfyn.Henderson@Cynulliad.Cymru

 : Cynulliad.Cymru/Pigion

 : [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

 : Cynulliad.Cymru/Ymchwil

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

Coetiroedd yng Nghymru: Hysbysiad Hwylus

Mae'r papur briffio hwn yn crynhoi ffeithiau a gwybodaeth allweddol am goetiroedd yng Nghymru. Mae'n amlinellu maint y coetiroedd a pherchnogaeth coetiroedd yng Nghymru, a chyfraddau plannu ac ailstocio. Mae hefyd yn disgrifio cyfraniad economaidd y sector coedwigaeth, pwysigrwydd coetiroedd ar gyfer yr amgylchedd yng Nghymru, safonau ar gyfer rheoli coedwigoedd, a'r clefydau coed sy'n effeithio ar goetiroedd yng Nghymru ar hyn o bryd.



Cynnwys

1.	Beth yw maint a chymeriad coetiroedd yng Nghymru?.....	1
2.	Pwy sy'n berchen ar goetiroedd Cymru?	1
3.	Faint o blannu neu ailstocio newydd sydd wedi digwydd?.....	1
4.	Beth yw cyfraniad economaidd y sector coedwigaeth?	2
5.	Pa mor bwysig yw coetir i'r amgylchedd?.....	5
6.	Sut y caiff coetiroedd Cymru eu rheoli ar hyn o bryd?.....	5
7.	Pa glefydau sy'n effeithio ar goetiroedd yng Nghymru ar hyn o bryd?.....	6
8.	Ffynonellau allweddol	8

1. Beth yw maint a chymeriad coetiroedd yng Nghymru?

Roedd **coetir yng Nghymru yn gorchuddio** 306,000 hectar yn 2016. Mae hyn yn 15 y cant o arwynebedd tir Cymru, sydd yn is na'r **cyfartaledd o 37 y cant ar gyfer Ewrop (PDF 2.67 MB)**. Y **duedd hirdymor ar gyfer yr ardaloedd coetir** yng Nghymru (1905 - 2016) fu cynnydd cyson, gyda chynnydd o 6.2 y cant o 1995-99 hyd at 2016. Mae mwy na 15 miliwn o goed ychwanegol yng Nghymru nad ydynt mewn coetiroedd, fel, mewn gwrychoedd, ymylon ffyrdd, parciau, gerddi, perllannau neu borfeydd coed.

Canfu yr **Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol**, a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, o gyfanswm arwynebedd y coetir, roedd 52,005 hectar yn goetiroedd brodorol (heb fod yn hynafol), 159,055 hectar yn goetiroedd anffodorol (heb fod yn hynafol), a 94,940 hectar yn **goetir hynafol** (gan gynnwys ardaloedd a gaiff eu plannu ar hyn o bryd gyda chonwydd anffodorol).

Adroddodd y **Comisiwn Coedwigaeth**, ar sail data 2012, fod 129,000 hectar yn goetiroedd conwydd (pren meddal) a oedd wedi'u stocio, a 137,000 hectar yn goetiroedd llydanddail (pren caled) wedi'u stocio. Mae'r diffiniad o ardal wedi'i stocio yn wahanol i'r diffiniad o ardal goetir, gan nad yw'n cynnwys ardaloedd o goed wedi'u cwmpo sy'n aros i gael eu hailstocio, ac ardaloedd o dir agored annatod sydd o fewn coetiroedd.

2. Pwy sy'n berchen ar goetiroedd Cymru?

Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru, a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, **sydd berchen ar fwy na 126,000 hectar**, neu 41 y cant o'r holl goetiroedd yng Nghymru. Tri chorff etifeddiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru a oedd yn rheoli'r coetiroedd hyn gynt; sef, roedd 117,000 hectar **yn cael eu rheoli'n flaenorol gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru** gydag ardaloedd eraill yn cael eu rheoli gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru neu Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Mae mwy na dwy ran o dair o'r coetir conwydd yng Nghymru **yn eiddo i Lywodraeth Cymru**, gan gynnwys rhai planhigfeydd ar safleoedd coetiroedd hynafol, ond mae coetiroedd brodorol a choetiroedd lled-naturiol hynaf yn bennaf ar dir preifat, gyda dim ond 19,000 hectar o safleoedd coetir hynafol **o fewn Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru**. Mae'r 180,000 hectar o goetir arall yn eiddo preifat.

3. Faint o blannu neu ailstocio newydd sydd wedi digwydd?


Dangosir y cyfraddau plannu ac ailstocio rhwng 1976 a 2016 yn Ffigur 1. Yn ôl ystadegau'r Comisiwn Coedwigaeth yn 2016, plannwyd 100 hectar ac ailstociwyd 1,800 hectar. Mae patrymau plannu newydd ac ailstocio wedi bod yn newid dros y 40 mlynedd diwethaf, gyda chyfraddau mwy o blannu rhywogaethau llydanddail yn hytrach na choed conwydd. Ers 2001, mae'r **arwynebedd coed conwydd wedi lleihau 18,000 hectar, ac mae arwynebedd yr ardaloedd o goed llydanddail wedi cynyddu 35,000 hectar**. Rhwng 2011 a 2016, **coed conwydd a oedd yn cael eu hailstocio yn bennaf** (67 y cant) tra bod yr ardaloedd plannu newydd yn cynnwys coed llydanddail yn bennaf (86 y cant).

Yn ôl **ystadegau'r Comisiwn Coedwigaeth**, digwyddodd pob plannu o fewn y sector preifat, ond mae'r categori hwn yn cynnwys coetiroedd a reolir yn awr gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ond a reolwyd gynt gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru neu Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Yn 2014, cyflwynodd Cyfoeth Naturiol Cymru dystiolaeth i **ymchwiliad i'r ystâd goedwigoedd cyhoeddus** Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Pedwerydd Cynulliad a oedd yn dangos bod 1,400 hectar o blannu coed conwydd wedi'i gwblhau ar dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ers 2013. Hefyd, mae coed yn

cael eu plannu drwy gynllun **Addewid Plant!** Llywodraeth Cymru, sy'n plannu coeden ar gyfer pob plentyn a anwyd neu a fabwysiadwyd yng Nghymru ers 1 Ionawr 2008, mewn un o **13 o safleoedd ar draws Cymru**.

Roedd y **Strategaeth Newid Hinsawdd i Gymru (2010)** yn cynnwys nod i gynyddu'r arwynebedd coetir o 100,000 hectar cyn 2030, drwy gyfradd blannu 5,000 hectar y flwyddyn dros 20 mlynedd, i helpu Cymru i gyrraedd ei thargedau lleihau allyriadau carbon. Roedd **Cynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru (PDF 1 MB)** yn nodi nad oedd y targed plannu newydd o 5,000 hectar y flwyddyn wedi cael ei gyflawni yn y pum mlynedd diwethaf, gyda dim ond 3,203 hectar a blannwyd o'r newydd rhwng 2010 a 2015. Gosododd darged newydd, sef i blannu 10,000 hectar erbyn 2020, a fydd yn cael ei gyflawni'n bennaf drwy gyllid uniongyrchol ar gyfer creu coetir o dan gynllun **Glastir**.

Ffigur 1 - Cyfraddau plannu coetir newydd ac ailstocio yng Nghymru rhwng 1976 a 2016. Ffynhonnell: **Y Comisiwn Coedwigaeth**



4. Beth yw cyfraniad economaidd y sector coedwigaeth?

Dywed **Dangosyddion Coetiroedd Cymru 2015-16** bod 'y data diweddaraf yn dangos' mai'r Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) ar gyfer y sector coedwigaeth yng Nghymru yw £528.6 miliwn. Mae hyn yn cynnwys coedwigaeth a thorri coed yn foncyffion, a gweithgynhyrchu pren, corc a chynnyrch papur, ond nid yw'n cynnwys mathau eraill o fusnesau a gefnogir gan goetiroedd, fel hamdden. Dengys y dangosyddion bod rhwng 8,500 ac 11,300 o bobl yn gweithio yn y sector coedwigaeth yng Nghymru yn 2014. Mae'r amcangyfrifon hyn yn nodi bod 1,400 o weithwyr amser llawn a 400 o weithwyr rhan-amser ym maes coedwigaeth a thorri coed, 5,000 amser llawn a 400 rhan-amser ym maes gweithgynhyrchu pren, cynhyrchion pren a chorc, a 3,800 o weithwyr amser llawn a 100 o weithwyr rhan-amser ym maes gweithgynhyrchu cynhyrchion papur. Hefyd, roedd 2,000 o bobl yn gweithio'n hunangyflogedig yn y sector. Roedd dros 700 o fusnesau yn y sector coedwigaeth yng Nghymru yn 2015. Mae cyflogaeth yn y sector coedwigaeth a nifer yr unedau busnes wedi aros fwy neu lai yn sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf.

Dengys arolygon o fusnesau yn y sector coedwigaeth yng Nghymru yn ystod y tair blynedd rhwng 2007 a 2010, mai ychydig dros draean o fusnesau a nododd ostyngiad o ran trosiant, gydag ychydig o

dan draean yn nodi cynnydd. Nid yw pedwar o bob pump o fusnesau wedi adrodd ar newid o gwbl o ran cyflogaeth. Roedd y mwyafrif o fentrau yn hyderus yn nyfodol eu busnes.

Amcangyfrifwyd mai gwerth economaidd tir coedwig sy'n eiddo cyhoeddus yng Nghymru, a'i asedau biolegol, oedd £642 miliwn yn 2015 [fel yr amcangyfrifwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru \(PDF 4.42 MB\)](#).

Coetiroedd yng Nghymru

FFEITHIAU ALLWEDDOL

Mae **15%**
(306,000ha)
o Gymru wedi'i
gorchuddio gan
goetir




59% 180,000ha
Y sector preifat

41% 126,000ha
Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru

49%
Coed Conifer

51%
Coed Llydanddail



78,000ha
wedi'u lleoli ar ffermydd

1.419 o dunelli CO₂cyfatebol yn cael ei ddal a'i storio'n flynyddol

EFFAITH ECONOMAIDD

£528.6m
o Werth Ychwanegol
Crynswth
2014

715 o fusnesau
Yn cyflogi
10,200
o bobl amser
llawn

1,400 ym maes coedwigaeth
5,000 ym maes
gweithgynhyrchu pren
3,800 ym maes
gweithgynhyrchu papur

BIOAMRYWIAETH



Rhywogaethau sy'n ddibynol ar goetir
o'r pwys mwyaf

30,000ha
o goetir derw yr ucheldir



5 cynefin
o brif bwysigrwydd



Mwsoglau a Chen y Coed
o bwysigrwydd byd-eang



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

5. Pa mor bwysig yw coetir i'r amgylchedd?

Mae coetiroedd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau ecosystem. Caiff y rhain eu diffinio yn **Strategaeth Coetiroedd i Gymru**, Llywodraeth Cymru, fel: gwasanaethau darparu (e.e. pren a thanwydd coed), gwasanaethau diwylliannol (e.e. hamdden a bioamrywiaeth), gwasanaethau rheoleiddio (e.e. diogelu pridd a dŵr), a gwasanaethau ategol (dal a storio carbon).

Roedd yr **Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol** yn asesu gwydnwch cynefinoedd yng Nghymru. Mae gwydnwch yn bwysig ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a darparu gwasanaethau ecosystem a buddion yn yr hirdymor. Aseswyd bod gwydnwch coetiroedd Cymru yn gymedrol ar gyfer coetir llydanddail lled-naturiol, ac yn gymedrol i uchel ar gyfer coetiroedd a blannwyd (cymysgeddau o goed brodorol a choed anffodorol).

Mae tua **5 y cant o goetiroedd** yng Nghymru wedi'u dynodi ar gyfer cadwraeth. Mae gwaith monitro cyflwr coetiroedd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) wedi dangos bod y **gyfran o safleoedd mewn cyflwr ffafriol** wedi lleihau o 26 y cant yn 2002-2006, i 21 y cant yn 2007-12. Fodd bynnag, mae arolygon a gynhaliwyd gan y **Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir** yn dangos cynnydd yn nifer cymedrig y Rhywogaethau Coetir Hynafol rhwng 2007 a 2015. Mae'r **rhestr dros dro** o gynefinoedd a rhywogaethau pwysicaf ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth yng Nghymru o dan **Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** yn cynnwys pum math o gynefin coetir, yn ogystal â phorfeydd / parcdir a pherllannau traddodiadol.

Mae'r **Strategaeth Coetiroedd i Gymru** yn amlygu y gall coetiroedd chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o reoli pridd a rheoli dŵr drwy: leihau llygredd, lleihau maetholion dŵr ffo, gwella ansawdd dŵr, lleihau erydiad pridd, lleihau perygl llifogydd, a chynnal dŵr yn llifo yn ystod tywydd sych. Mae'r **Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (PDF 2.88 MB)** yn mapio ble y mae perygl llifogydd yn cael ei leihau gan nodweddion naturiol fel coed wedi'u gwreiddio'n ddwfn, a lle y gall fod cyfleoedd i leihau'r perygl o lifogydd drwy blannu coed dalgylch canol (ardaloedd pridd dwfn ar lethrau 7-18 °, gan hepgor mannau anaddas) neu drwy sefydlu coetiroedd gwlyb.

Amcangyfrifir mai'r swm **o garbon a atafaelir (a gaiff ei gymryd a'i storio) gan goetiroedd Cymru** bob blwyddyn yw oddeutu 1,419 tunnell o garbon deuocsid cyfatebol. Mae priddoedd coetir, yn enwedig pridd mawn, yn bwysig iawn ar gyfer storio carbon, ac mae angen **dulliau rheoli pridd priodol** i osgoi allyriadau carbon o briddoedd coetir.

6. Sut y caiff coetiroedd Cymru eu rheoli ar hyn o bryd?

Mae darparu gwasanaethau ecosystem yn dibynnu ar gyflwr a swyddogaeth coetiroedd, sy'n gysylltiedig â rheoli coetiroedd yn effeithiol. Gall y gwaith o reoli coetir fod am nifer o nodau gwahanol, fel cadwraeth pren neu gadwraeth bioamrywiaeth, fodd bynnag, ni chredir fod coetiroedd nad ydynt o dan reolaeth yn darparu'r buddion gorau posibl.

Yn 2014, roedd o leiaf **203,000 hectar o arwynebedd coetir yng Nghymru** (66 y cant) yn cael eu rheoli ar **Safon Coedwigaeth y DU** sef cynnydd o'r 123,000 hectar yn 2001. Fodd bynnag, mae'r **Strategaeth Coetiroedd i Gymru** yn nodi nad yw rhagor na hanner y coetiroedd preifat yn debygol o fod o dan reolaeth weithredol, fel y mesurir yn ôl nifer y bobl sy'n manteisio ar gynlluniau grant coetir.

Mae gan Gymru **141,000 hectar o goetir** a ardystiwyd o dan **Safon Sicrhau Coetir y DU** (46 y cant o gyfanswm yr arwynebedd), 117,000 hectar sy'n cael ei reoli gan Cyfoeth Naturiol Cymru (Comisiwn Coedwigaeth Cymru gynt) a 24,000 hectar yn goedwig yn y sector preifat (gan gynnwys coetiroedd a reolir yn flaenorol gan y Cyngor Cefn Gwlad ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, ac a reolir yn awr

gan Cyfoeth Naturiol Cymru). Mae'r cam Ardystio yn rhoi sicrwydd annibynnol i brynwyr bod coed yn dod o goedwigoedd a choetiroedd a gaiff eu rheoli mewn modd cyfrifol.

Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am reoli Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru, ac mae'n rhannu cyfrifoldeb dros weithredu'r Strategaeth Coetiroedd i Gymru a'r Cynllun Gweithredu, ac yn rheoleiddio gweithgareddau yng nghoetiroedd Cymru, gan gynnwys drwy ddyfarnu trwyddedau torri coed.

Roedd yr **ymchwiliad i'r ystâd goedwigoedd cyhoeddus** (a drafodwyd yn flaenorol) gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn asesu perfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru ers iddo ymgymryd â chyfrifoldebau Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Amlygodd yr ymchwiliad rai pryderon gan randdeiliaid ynghylch rheolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru o Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran plannu ac ailstocio, y cyflenwad coed a rheoli clefydau. Mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor, ymrwymodd Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru i nodi rôl a phwrpas Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru, a gwella rheolaeth o'r gwaith o gynhyrchu a chyflenwi coed.

7. Pa glefydau sy'n effeithio ar goetiroedd yng Nghymru ar hyn o bryd?

Mae coed Cymru o dan fygythiad gan nifer o glefydau, fel yr amlinellir yn y **Strategaeth Iechyd Coed gan Lywodraeth Cymru**. Ar hyn o bryd, y clefyd mwyaf difrifol yw'r clefyd coed ynn (a achosir gan y ffwng *Hymenoscyphus fraxineus*, a elwid gynt yn *Chalara fraxinea*) a *Phytophthora ramorum* sydd yn bennaf yn achosi bod coed llarwydd yn gwywo.

Ym mis Chwefror 2012 y **canfuwyd y clefyd ynn gyntaf yn y DU**, ar goed mewn meithrinfa goed yn Lloegr a oedd wedi'u mewnforio o'r Iseldiroedd, er bod coed hŷn â heintiau wedi'u canfod yn 2015, sy'n golygu y gall y clefyd fod wedi cyrraedd y DU drwy ddulliau naturiol. Daethpwyd o hyd i'r achos cyntaf yn yr amgylchedd ehangach yng Nghymru ym mis Mai 2013. Ers 1 Tachwedd 2016, mae 34.3 y cant o sgwariau grid 10 cilomedr yng Nghymru â haint wedi'i nodi ynddynt (53 yn 2016). Nododd yr **Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol** bod heintiau wedi cael eu gweld mewn 100 o safleoedd unigol. Mae **map rhyngweithiol o achosion o'r clefyd coed ynn** ar draws y DU ar gael.

Mae'r clefyd yn achosi briwiau rhisgl, y goron yn gwywo a cholli dail, ac fel arfer mae'n angheuol, weithiau drwy heintiau eilaidd. Mae'n fwyaf niweidiol i goed ynn cyffredin (*Fraxinus excelsior*) ond gall hefyd effeithio ar goed ynn culddail (*angustifolia Fraxinus*). Roedd **19,000 hectar o goed ynn yng Nghymru yn 2016**, sy'n cynrychioli tua 12.2 y cant o'r holl goetiroedd llydanddail. Ar draws y DU mae **Gorchymyn Iechyd Planhigion**, sy'n gwahardd symud hadau ynn, planhigion a choed i mewn ac o fewn Prydain Fawr wedi bod ar waith ers mis Hydref 2012 i arafu lledaeniad clefyd y coed ynn a lleihau ei effaith. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Gynllun Rheoli Chalara ar gyfer Cymru (PDF 72 KB)** ym mis Ionawr 2015, a oedd i gael ei ddiweddarau ym mis Ionawr 2016.

Roedd **Phytophthora ramorum yn bresennol yn holl wledydd y DU erbyn 2010** ac roedd yn arbennig o gyffredin yn ne Cymru a de-orllewin Lloegr. Mae'r clefyd yn effeithio ar rywogaethau coed llarwydd (*Larix*) yn bennaf, sef coed llarwydd Siapaneaidd yn arbennig (*Larix kaempferi*) ble y mae'n achosi heintiau angheuol, ond gall hefyd effeithio ar rywogaethau eraill. Daethpwyd o hyd i *P. ramorum* gyntaf yng Nghymru ym mis Mai 2010, ac ers mis Tachwedd 2016 mae 9,000 hectar o goed llarwydd wedi'u heintio yng Nghymru.

Cyfanswm yr **arwynebedd o goed llarwydd yng Nghymru yw 22,000 hectar**, y mae 12,000 hectar ohono'n rhan o Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru, sy'n cynrychioli 14.7 y cant o'r holl ardal goetir conwydd. Torrwyd dros **2,000 hectar o goed llarwydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (PDF 1.2 MB)** rhwng 2010 a 2014, gan gynhyrchu 450,000 metr ciwbig o bren, a rhagwelwyd y byddai 244,000 metr

ciwbig ychwanegol yn cael ei gynhyrchu yn 2014/15. Rhwng 2011/12 a 2015/16, mae [5692 hectar o goed larwydd wedi cael eu hailblannu \(1.18 MB\)](#) ar Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru y pŵer i gyflwyno Rhybuddion Iechyd Planhigion statudol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchnogion coetiroedd dorri coed sydd wedi'u heintio. Mae Cymru wedi'i rhannu'n [ddau barth risg clefyd](#): sef [Parth Craidd y Clefyd \(PDF 1.73 MB\)](#) a Pharth Cyfyngu'r Clefyd, lle y mae strategaethau rheoli gwahanol ar waith. Mae [map o'r haint P. ramorum](#) ar draws y DU ar gael, a gellir gweld map o heintiau a gadarnhawyd yng Nghymru yn yr [Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol](#). I gael rhagor o wybodaeth am *P. ramorum* gweler yr [Hysbysiad Hwylus \(PDF 396.9 KB\)](#) gan y Gwasanaeth Ymchwil.

8. Ffynonellau allweddol

Llywodraeth Cymru

- [Coetir Glastir](#)
- [Rhagolwg Llywodraeth Cymru](#)
- [Cynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru 2015-2020](#)
- [Dangosyddion Coetiroedd i Gymru 2014-15](#)
- [Y Strategaeth Coetiroedd i Gymru](#)

Cyfoeth Naturiol Cymru

- [Gwefan Coedwigaeth Cyfoeth Naturiol Cymru.](#)
- [Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol](#)
- [Safon Coedwigaeth y DU](#)

Y Comisiwn Coedwigaeth

- [Comisiwn Coedwigaeth - Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol](#)
- [Comisiwn Coedwigaeth - Ystadegau](#)